**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Strategaeth a Chyllid Addysg Drydyddol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**29 Awst 2025**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2025 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

1.2 Mae'r Rheoliadau yn disgrifio'r cyrsiau sydd i'w dynodi gan Reoliadau 2018 ac yn darparu ar gyfer uchafswm benthyciad ffioedd dysgu, hyd at £9,535, i fyfyrwyr cymwys ar y cyrsiau hynny yr effeithir arnynt.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y daw'r Rheoliadau i rym ar 31 Awst 2025, llai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod. Mae angen i'r Rheoliadau fod mewn grym cyn 1 Medi 2025 (diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn angenrheidiol i alluogi myfyrwyr sy'n dechrau neu'n parhau â chwrs gyda dyddiad dechrau'r cwrs rhwng 1 Medi 2025 a 31 Rhagfyr 2025 i fod yn gymwys i gael cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth.

## 3. Cefndir

3.1 Adolygodd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, sy'n darparu gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar ran Gweinidogion Cymru, y cyrsiau breiniol a lanlwythwyd gan ddarparwyr addysg uwch (ac a ddarperir gan sefydliadau preifat yn Lloegr) i'w system Gwasanaeth Rheoli Cyrsiau. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu disgrifio ar y system Gwasanaeth Rheoli Cyrsiau fel rhai sydd wedi'u dynodi at ddibenion denu cymorth statudol i fyfyrwyr o Gymru. Mae dynodiad yn galluogi talu cymorth ariannol i fyfyrwyr a darparwyr addysg uwch.

3.2 Y darparwyr arweiniol ar gyfer yr holl gyrsiau dan sylw yw sefydliadau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr gyda statws Cymeradwy (Cap Ffioedd) yn Lloegr. Gall darparwr cofrestredig ymrwymo i gytundeb dilysu a breinio gyda darparwr a all fod wedi'i gofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr neu beidio, a bydd y cyrsiau'n cael eu dynodi ar gyfer cymorth myfyrwyr gan Lywodraeth y DU.

3.3 Mae polisi Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr arweiniol a'r darparwr sydd wedi'i freinio fod wedi'u cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr; os nad ydynt wedi cofrestru, rhaid i'r darparwr wneud cais i Weinidogion Cymru am ddynodiad penodol, drwy Medr. Felly, er bod y cyrsiau hyn wedi'u dynodi ar gyfer cymorth gan Lywodraeth y DU, nid ydynt wedi'u dynodi ar gyfer cymorth gan

Lywodraeth Cymru. Nid oes gan fyfyriwr o Gymru hawl i gymorth mewn cysylltiad â'r cyrsiau hyn (sydd heb eu dynodi).

3.4 Mae Rheoliadau 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer dynodiad awtomatig (cyrsiau mewn categorïau sydd wedi'u dynodi gan Reoliadau 2018 ac nad oes angen camau pellach) a dynodiad penodol (sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad pellach i ddynodi cyrsiau penodol, o dan y Rheoliadau).

3.5 Yn gyffredinol, mae'r broses i ddarparwr wneud cais am ddynodiad penodol trwy Medr yn cymryd hyd at 12 wythnos i'w chwblhau. Nid oes digon o amser i ddarparwyr wneud hyn cyn 1 Medi (diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd).

3.6 Er bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddynodi'n benodol y cyrsiau yr effeithir arnynt ac felly darparu cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth i'r myfyrwyr hynny sy'n gymwys o dan Reoliadau 2018, mae dynodi cyrsiau penodol a ddarperir gan sefydliadau preifat ond yn darparu cyfradd is o fenthyciad ffioedd dysgu i fyfyrwyr israddedig cymwys. Ar gyfer myfyrwyr israddedig amser llawn, byddai hyn yn uchafswm benthyciad ffioedd dysgu o £6,355 o gymharu â'r gyfradd lawn o £9,535. Ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, y gyfradd is o fenthyciad ffioedd dysgu i'r rhai sy'n astudio yn Lloegr yw £4,765, o gymharu â'r gyfradd lawn o £7,145. Mae darparwyr y cyrsiau yr effeithir arnynt yn codi hyd at yr uchafswm ffi dysgu a ganiateir yn Lloegr. Byddai myfyriwr ar un o'r cyrsiau yr effeithir arnynt, felly, yn wynebu diffyg wrth fodloni eu rhwymedigaeth i dalu ffioedd dysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 heb unrhyw ymyrraeth bellach.

3.7 Mae myfyrwyr o Gymru ar gyrsiau sy'n cael eu dynodi'n awtomatig gan Reoliadau 2018 yn gymwys i gael uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £9,535.

3.8 Mae'r ddeddfwriaeth hon yn angenrheidiol i ddynodi'n awtomatig y cyrsiau yr effeithir arnynt er mwyn galluogi myfyrwyr sy'n dechrau neu'n parhau â chwrs gyda dyddiad dechrau'r cwrs rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr i fod yn gymwys i gael cymorth, gan gynnwys uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu, hyd at £9,535.

3.9 Mae'r Rheoliadau yn sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwyr ar gyrsiau yr effeithir arnynt dan anfantais oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

## 4. Cefndir deddfwriaethol

4.1 Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 22(1) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ('Deddf 1998').

4.2 Mae adran 22 o Ddeddf 1998 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i dderbyn cymorth o'r fath; ac i ddynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion denu'r cymorth ariannol hwnnw.

4.3 Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004") yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan isadrannau (2)(a), (c), (j), neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn arferadwy'n gydredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

4.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

4.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

4.6 Bob blwyddyn, dirprwyir nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.

4.7 Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 5. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

5.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu sylfaen ar gyfer y system cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y Deyrnas Unedig, a myfyrwyr penodol eraill sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yng Nghymru. Mae gan fyfyrwyr cymwys hawl i dderbyn cymorth wrth ymgymryd â chwrs dynodedig.

5.2 Mae'r Rheoliadau yn disgrifio 100 o gyrsiau i'w dynodi'n awtomatig gan Reoliadau 2018 ac yn darparu ar gyfer uchafswm benthyciad ffioedd dysgu, hyd at £9,535, i fyfyrwyr cymwys ar y cyrsiau hynny yr effeithir arnynt.

5.3 Mae'r Rheoliadau yn berthnasol i flynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025 yn unig, ar yr amod bod y cwrs yn dechrau cyn 1 Ionawr 2026. Mae hyn yn golygu y bydd myfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau sy'n dechrau yn ystod y cyfnod 1 Medi i 31 Rhagfyr, yn ogystal â'r rhai sy'n parhau i'w hail flwyddyn neu flynyddoedd dilynol yn ystod y cyfnod hwnnw, yn gymwys i gael cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth.

## 6. Ymgynghori

6.1 O ystyried natur frys y newidiadau hyn, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau.

### 7. Yr opsiynau

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

7.1 Os na wneir Rheoliadau 2025, byddai'r goblygiadau fel a ganlyn:

- Byddai angen i ddarparwyr cyrsiau yr effeithir arnynt wneud cais i Weinidogion Cymru am ddynodiad penodol o dan Reoliadau 2018. Byddai darparwyr yn ysgwyddo costau wrth wneud cais. Byddai hyn yn achosi oedi i fyfyrwyr o Gymru sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2025 wrth geisio cael mynediad at gymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth. Byddai'n lleihau faint o gymorth cynhaliaeth y byddai myfyrwyr Cymru yn ei dderbyn, sy'n cael ei gyfrifo ar sail pro rata drwy gydol y flwyddyn academaidd.

- Pe bai Gweinidogion Cymru yn rhoi dynodiad penodol, byddai myfyriwr amser llawn o Gymru yn gymwys i gael uchafswm benthyciad ffioedd dysgu o £6,355, a dyna beth mae Rheoliadau 2018 yn darparu ar ei gyfer. Mae darparwyr cyrsiau yr effeithir arnynt yn codi hyd at y ffi ddysgu uchaf a ganiateir yn Lloegr, £9,535. Byddai myfyriwr wedyn yn wynebu diffyg wrth fodloni ei rwymedigaeth i dalu ffi dysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Mae sefyllfa debyg yn berthnasol i fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio yn Lloegr, lle mae uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael yn £4,765 o gymharu â'r ffi uchaf a ganiateir o hyd at £7,145. Byddai angen i'r myfyriwr dalu am unrhyw ddiffyg. Mae hyn yn debygol o fod yn anodd i lawer o fyfyrwyr.

- Pe bai darparwr cwrs yr effeithir arno yn penderfynu peidio â gwneud cais am ddynodiad penodol, ni fyddai gan unrhyw fyfyriwr o Gymru sy'n dilyn cwrs o'r fath unrhyw hawl i gymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth a byddai'n rhaid iddo ariannu ei gwrs yn breifat. Pe na bai cyllid preifat ar gael, ni fyddai gan fyfyrwyr unrhyw ddewis ond rhoi'r gorau i'r cwrs. Byddai llai o ddewis o ran cyrsiau.

- Pan fo myfyrwyr yn cael eu gorfodi i adael cyrsiau oherwydd diffyg cyllid preifat, byddent yn wynebu costau sylweddol, yn ddiriaethol gan gynnwys dyled benthyciad a gafwyd, costau llety ar gyfer 2025/26, offer, llyfrau, a chostau chwilio ar gyfer cyrsiau/darparwyr newydd, ac yn anniriaethol ar ffurf gofid sylweddol.

*Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

7.2 Mae gwneud y Rheoliadau yn sicrhau bod y goblygiadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi ac y gall myfyrwyr o Gymru gael gafael ar uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael (hyd at £9,535). Dyma'r opsiwn a ffefrir.

**8. Costau a manteision**

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

8.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i'r system cymorth i fyfyrwyr yn gysylltiedig ag opsiwn un.

8.2 Pe bai Gweinidogion Cymru yn rhoi dynodiad penodol o dan Reoliadau 2018 ar gyfer y cyrsiau yr effeithir arnynt, byddai unrhyw ddiffyg yn y rhwymedigaeth i dalu ffioedd dysgu yn cael ei ysgwyddo gan y myfyriwr, ac felly bydd ganddo lai o ddewis o ran cyrsiau, heb unrhyw ymyrraeth bellach gan Lywodraeth Cymru.

*Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

8.3 Mae gwneud Rheoliadau yn sicrhau bod y goblygiadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi.

8.4 Mae'r gwahaniaeth yn y gost rhwng cymorth i fyfyrwyr o dan drefniant dynodiad penodol – opsiwn un – a'r trefniadau a ddarperir gan opsiwn dau yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau ffioedd is ac uwch. Mae hyn wedi'i gyfrifo fel £748,680 ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 yn seiliedig ar yr hyn sy'n hysbys am nifer y myfyrwyr amser llawn a rhan-amser ar y cyrsiau hyn. Byddai'r costau ychwanegol, sy'n debygol o fod yn sylweddol, yn ddiriaethol ac yn anniriaethol, i fyfyrwyr a ddisgrifir uchod yn cael eu hosgoi.

**9. Asesiad o'r gystadleuaeth**

9.1 Nid yw gwneud y Rheoliadau yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

**10. Asesu ar ôl gweithredu**

10.1 Caiff y rheoliadau sy'n rheoli'r system cymorth i fyfyrwyr eu diwygio'n flynyddol. Maent hefyd yn destun adolygiad manwl yn gyson gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi wrth iddynt roi'r rheoliadau ar waith.

10.2 Mae system newydd o ddynodi cyrsiau yn cael ei datblygu ac mae wedi bod yn destun ymgynghoriad (Rheoleiddio darparwyr addysg uwch a dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr). Yn dibynnu ar sut mae system newydd yn cael ei gweithredu, dylai fod llai o ddynodiadau anghywir. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn tynhau ei threfniadau dynodi, a fydd yn ategu trefniadau dynodi Cymru yn y dyfodol.

10.3 Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gweinyddu'r 'System Rheoli Cyrsiau' a bydd yn parhau i fonitro cyrsiau sydd â dynodiad Cymreig.